CYLCH MYFYRWYR A PHOBL IFANC

Bu aelodau'r Cylch yn gwerthuso pum nod 2010-2011 gan fanteisio ar y cyfle i fesur ein llwyddiant a'n methiant. Penderfynwyd ailwampio ambell nod ac ychwanegu dau newydd.

- Parhau a datblygu gwaith ***PIMS*** fel cyfrwng tawel i baratoi ein pobl ifanc i gyflawn aelodaeth.

- Parhau a datblygu ein hymwneud â'r myfyrwyr trwy ***Wedi 7.***

- Parhau i gyfathrebu a'r gymdogaeth yn y Waun Ddyfal.

- Dechrau hyrwyddo gweithgarwch newydd defosiynol ymysg ***PIMS*** ac ***Wedi 7***.

- Cyd-weithio achlysurol gyda'r Cylch Dinasyddiaeth a'r Cylch Elusen ar ambell gynllun amgylcheddol a dyngarol.

- Gwerthuso ein dulliau cyfathrebu â ***PIMS*** ac ***Wedi 7***; addasu fel bo angen.

Ers dechrau Mis Medi mae ***PIMS*** wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac wedi cychwyn ar ei maes llafur o astudio un o emynau David Charles (1762-1834; *C.Ff.* 686) - "*O Iesu mawr, rho d'anian bur*" - yng nghyd-destun ffydd a chred. **Sesiynau Festri PIMS yw bellach y cyfrwng a ddefnyddiwn fel eglwys i baratoi ein pobl ifanc i gyflawn aelodaeth o Eglwys Crist.** Cafwyd sesiwn wir-fendithiol yng nghwmni Criw ***Wedi 7*** - un o emynau Moelwyn Hughes (1866 – 1944; *C.Ff.* 691) - "*Fy Nhad o'r nef, o gwranda' nghri,*" - yw thema ein hastudiaeth yn y sesiynau misol hyn. Rhannwyd dros 550 o gardiau gwybodaeth a gwahoddiad yn ardal Y Waun Ddyfal yn ystod Wythnos y Glas; cyhoeddwyd llythyr o groeso o Eglwys Minni Street i fyfyrwyr yn nhudalennau'r Tyst ychydig wythnosau'n gynt.

Diweddarwyd Rhagfyr 2011